

PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1B

RHESTRU APELIADAU ARDRETHU ANNOMESTIG

Cyflwyniad

1. Mae'r Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758) yn nodi'r weithdrefn a'r amgylchiadau lle gellir gwneud cynigion yn erbyn cofnodion sy'n ymddangos mewn Rhestrau Ardrethu.
2. Mae'r rheoliadau'n nodi y caiff Tribiwnlys Prasio Cymru (TPC) glywed a phenderfynu ar yr apeliadau ardrethu annomestig canlynol:
 - Cynigion annilys (Rheoliad 8)
 - Anghytuno ynghylch y newid arfaethedig (Rheoliad 13)
 - Hysbysiad Cwblhau (Paragraff 4, Atodlen 4A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988)
 - Cosbau (Paragraff 5A, Atodlen 9 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988)
3. Rheoliad 8 - pan fydd cynnig wedi'i benderfynu yn annilys gan Asiantaeth y Swyddfa Brasio (ASB) a bod eu hysbysiad annilysrwydd wedi'i herio, bydd yr apêl yn cael ei drosglwyddo i TPC gan yr ASB o fewn 4 wythnos.
4. Rheoliad 13 - pan fydd cynnig yn parhau i fod heb ei ddatrys, bydd yn cael ei drosglwyddo o fewn 3 mis gan yr ASB i TPC
5. Gwneir apeliadau Hysbysiad Cwblhau a Rhybudd Cosb yn uniongyrchol i TPC o fewn 4 wythnos/28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd perthnasol.

Rhestru Apeliadau wedi'u Rhaglennu

6. Fel rheol, bydd pob apêl a gwmpesir gan Rheoliad 13 wedi eu gosod mewn rhaglen gan yr ASB a heb ei setlo erbyn y dyddiad targed, yn cael ei rhestru, fel y manylir ym mhwynt 9, oni bai bod TPC yn penderfynu y dylid delio â'r mater y tu allan i'r rhaglen yn unol â phwynt 11.
7. Pan fydd dau neu fwy o apeliadau wedi'u gwneud mewn perthynas â'r un hereditament, ymdrinnir â hwy yn y drefn y daw'r newidiadau i rym.
8. Pan wneir apeliadau yn erbyn y Rhestr Ardrethu Annomestig a Rhestr Brasio'r Dreth Gyngor mewn perthynas â'r un eiddo, ymdrinnir â'r apeliadau fel y penderfynir gan TPC.
9. Bwriad TPC, lle bynnag y bo'n bosibl, yw trefnu gwrandawriad cyntaf apêl o fewn 6 - 8 wythnos o'r dyddiad targed, oni phenderfynir y dylai'r apêl fynd ymlaen i adolygiad cyn gwrandawriad i ddechrau (gweler protocol arfer gorau TPC 1C).

10. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r partïon dderbyn o leiaf 28 diwrnod o rybudd o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad. Bydd TPC yn anelu, lle bynnag y bo modd, i roi o leiaf chwe wythnos o rybudd o'r gwrandawriad i bob parti.

Rhestru apêl(au) y tu allan i Raglen

11. Pan fydd TPC wedi derbyn cais gan barti bod angen rhestru apêl y tu allan i'r rhaglen, e.e. lle mae'r apelydd yn dioddef caledi, bydd TPC yn ystyried pob cais ac yn hysbysu'r partïon yn unol â hynny.

Rhestru apelïadau Annilyd, Rhybudd Cosb a Hysbysiad Cwblhau nad ydynt wedi'u rhaglennu gan ASB

12. Bydd TPC yn anelu, lle bynnag y bo'n bosibl, i restru gwrandawriad cyntaf o rybudd cwblhau neu apêl rhybudd cosb o fewn 3 mis o'i dderbyn.
13. Bydd TPC yn anelu, lle bynnag y bo'n bosibl, i restru gwrandawriad cyntaf o unrhyw fath arall o apêl ardrethu annomestig nad yw wedi'i rhaglennu o fewn 6 mis o'i dderbyn.
14. Mae rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r partïon dderbyn o leiaf 28 diwrnod o rybudd o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad. Bydd TPC yn anelu, lle bynnag y bo modd, i roi o leiaf chwe wythnos o rybudd o'r gwrandawriad i bob parti.